



# Llên Natur

www.lleennatur.com

Gwefan i Naturiaethwyr ac i Bobl Cymru

Ychwanegwch ddeunydd  
i  
[lleennatur@yahoo.co.uk](mailto:lleennatur@yahoo.co.uk)

Golygydd: Duncan Brown:  
Cysodi: Ifor Williams.



Giat o ardal Y Waun, Wrecsam. Dewch a lluniaŷ giatiau o'ch ardal chi

## Union ganrif yn ôl

**Garan yn Rhosneigr** 16/05/1908 *A female Common Crane (Grus communis) was shot at midnight on the 16th May, 1908, at Rhosneigr, Anglesey, by the gamekeeper, on the estate of Colonel Thomas J. Long. The plumage and feet of the bird are in most perfect condition, and there is no indication that it had been in captivity.*

Cylchgrawn *British Birds* Gorff 1908

**Delor y Cnau yn Llandudno** - digwyddiad prin yn 1908 *In view of the fact that up to the time of publishing my "Fauna of North Wales" no authentic occurrence of the Nuthatch (Sitta cesia) on the north coast of Wales was known, it is interesting to note that a pair took up quarters in Gloddaeth Woods, Llandudno, early in the present year, and bred there later on. They were first observed by Mr. R. W. Jones, who showed me the nest-hole on May 10th. H.E. Forrest* Cylchgrawn *British Birds* Gorff 1908

## Ymateb Ieuan Roberts i brofiad Tom Jones (Rhif 4)

Yn ôl disgrifiad Tom o'r llwch Sahara a golau'r gogledd, ni welir golau'r gogledd yn bellach i'r de na gwlad y Llynnoedd. Rwy'n cofio mynd allan un noson yma yn Llambled yn yr wythdegau cynnar a'i gwyllo am o leiaf hanner awr yn symud yn hudolus yn ôl ac ymlaen yn isel yn yr awyr i'r gogledd. Rwy'n siwr imi dynnu rhai lluniaŷ ar y pryd ond byddai cael gafael arnynt yn dipyn o broblem..

### .....ac i erthygl y llwyls

Ryw bymtheg mlynedd yn ôl rwy'n cofio gweld llwyn o flodau gwyn wedi ymddangos yn sydyn yn y gwanwyn yng nghlawdd y ffordd ar y copa rhwng Llambled a Phumsaint, ddim ymhell o Dafarn Jem. Stopio'r car a mynd i'w gweld yn nes a darganfod mai'r llwyls oeddynt ond mewn lle oer iawn ac annhebygol iddynt nes cofio bod piben nwy wedi cael ei gosod yn groes i'r hewl yn ychydig cynt a siwr o fod pridd o ardal arfordirol wedi cael ei ddefnyddio i lenwi'r bwllch a grëwyd yn y clawdd.

Pleidlais y Logo. Y logo a ddewiswyd gan y mwyafrif oedd rhif 4. Diolch am eich cyfraniad.

I weld holl rifynnau bwletin Llên Natur trowch i'r egin-wefan [www.lleennatur.com](http://www.lleennatur.com), a chliciwch ar 'cylchgrawn'.

*L l ê n y C r e a d u r i a i d*

### Hanes y Cordwellt ym Mhrydain (ac ar y Fawddach)

Nid oedd y cordwellt *Spartina anglica*, sy'n tyfu'n drwch ar bob un o'n haberoedd erbyn hyn, yn bod o gwbl - yn unman yn y byd - ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Mae'r planhigyn yn gorchuddio rhannau helaeth o'n haberoedd yng Nghymru, ac mae eu hynt i'w weld mewn ffotograffau hen a newydd o aber y Fawddach, Dolgellau.



### Cronicl y Cordwellt

**1829** *Spartina alterniflora* (y cordwellt llyfn) yn cael ei gofnodi am y tro cyntaf ym Mhrydain yn Ne Lloegr (afon Ithen). Credir iddo gyrraedd Ewrop o America. (Ymddangosodd yn Bayonne, Ffrainc yn 1803) Hyd at **1900** y cordwellt *Spartina maritima* (y cordwellt bach) - yr unig gordwellt cynhenid i Loegr - yn byw fel erioed yn ddifai a didrafferth ar hyd arfordir dwyrain Lloegr.

**1870** *S. maritima* ac *S. alterniflora* yn croesi a'i gilydd lle bynnag y cyddigwyddent i greu *S. x townsendii* (wedi ei enwi ar ôl y botanegydd Fictoraidd, yr Athro F. Townsend). Planhigyn ymledol ond anffrwythlon oedd hwn.

**1890** Rhywsut, yr adeg hon, bu newid genetig yn y croesiad *S. x townsendii* daeth i fod yn groesiad ffrwythlon. Ei enw oedd *Spartina anglica* (cordwellt cyffredin) ac daeth yn fwy ymledol fyth trwy genhedlu o had yn ogystal â thrwy wraidd.

**1910** Plannwyd *Spartina anglica* ar lawer o aberoedd y tu allan i ddeLloegr er mwyn adennill tir tywodlyd ar gyfer cadw stoc.

**1950** Sylwodd botanegwyr Cymru fel Peter Benoit yn y 50au, fod *Spartina anglica* yn ymledu gan alw am fesurau i'w reoli.

**1980** Y cyrff cadwriaethol yn ymdrechu, heb lwyddiant, i'w reoli (ee. Aber yr Afon Cefni, Ynys Môn)

**2000** Sylweddoli (a gobeithio) fod *Spartina anglica* wedi cyrraedd ei anterth ac yn dechrau marw'n ôl.

### Hela Geiriau



Ydych chi'n hoff o glôfs? Ydych chi'n gwybod be ydyn nhw? Ac o ble daeth y gair?

Clôfs (Cymraeg) < *cloves* (Saesneg) < *cloues* (Ffrangeg). Ystyr y gair Ffrangeg?...hoelion. Pam hoelion? Wel sbiwch ar eu siap nhw !

### Rysait Pwdin Hoelion (a 'fala)

- 1) Pliciwch, sleisiwch a thynnwch tu mewn i ddigon o afalau coginio i orchuddio llestr pobi wedi ei thaenu â menyn
- 2) Ychwanegwch 4-5 clof a 2 lwy fwrdd o resins di-had.
- 3) Taenwch ychydig o sudd lemwn a siwgr dros y cyfan.
- 4) Ar ben hwn arllwyswch does wedi ei wneud o 2 gwpaned o flawd plaen a phinsiad o halen, hanner cwpaned o siwgr, 2 wy a pheint o lefrith.
- 5) Pobwch mewn popty (350°F) am awr

### Crwbanod Môr o'r trofannau yn dod i Gymru yn lleng

Ar 3 Ion 2008 daeth crwban för Kemp Ridley i draeth Porth Ceiriad, Abersoch yn fyw. Roedd hwn yn 1 o 14 dros Brydain rhwng 29 Rhagfyr 2007 a 9 Chwefror 2008. Rhwng diwedd Rhagfyr 2007 a dechrau Chwefror 2008 daeth 10 crwban i draethau'r Alban, Iwerddon, Cernyw ac i draethau Gwynedd a Môn. (Ffynonellau: datganiad y *Marine Conservation Society* a Chyngor Gwynedd)


Dyma ddywed Huw Holland Jones, Y Waunfawr (Meteorolegydd) *There's been a rise of sightings of Loggerheads in UK waters in the past 20 years..... owing to the general warming of ocean waters in recent years, leading to warmer waters off our Atlantic coasts. It seems that they enter the North Atlantic Gyre [enw newydd am y Gulf Stream] soon after birth in the Caribbean & around Florida where they feed on jellyfish & squid. The N. Atlantic Gyre rotates clockwise round the Sargasso Sea. An offshoot from the Gyre can head NE towards the UK from west of Portugal, and the turtles come up with this flow if a severe storm pushes them out of the Gyre. This past winter we had unusually persistent winds from the south and south-west, from December to February. This resulted in warmer waters off the SW Approaches, and probably accounts for the unusual number of turtle finds, even to the extent of some surviving alive. I should think with such persistent winds from the S/SW, there would have been a fair number of vigorous lows in mid-North Atlantic to account for pushing the turtles out of the Gyre.*

## Eosiaid Gwlad y Gân

Eos Ceiriog, Eos Morlais, Eos Bradwen; doedd dim prinder Eosiaid yng Ngwlad y Gân. Ond lle'r oedd yr eosiaid go iawn? Mae Llyfr Taliesin yn cyfeirio ato yn y 13<sup>eg</sup> ganrif yng nghwmni cogau mis Mai. Cyfeirio at greadur byw yn ei gynefin, ac nid at sentiment y traddodiad perganu a wnaeth Dafydd ap Gwilym: "Cytygerdd eos mewn coetgae" meddai, ac eto, "Salm wiw is helm o wiail. Roedd Dafydd felly yn hollol ymwybodol o gynefin yr eos. Cyfeiriodd William Salesbury (1547) ato fel "ederyn a gân y nos, a nyghtyngale".


A oedd hinsawdd a thirwedd Cymru'r cyfnod ôl-Rufeinig yn fwy addas i eosiaid nag y bu fyth wedyn? Dyna'r Cyfnod Cynnes Canoloesol, cyfnod o fwynder pan fu gwinllannoedd Prydain yn eu gogoniant a phobl y gorllewin yn mwynhau tywydd Mediterannaidd a phan fu'r Northmyn yn gwladychu ynsoedd y Gogledd am y tro cyntaf. Ai dyma pryd y gwelodd eosiaid Cymru eu Paradwys olaf? Dengys y ffynonellau na allai'r aderyn hwn fod yn gwbl anghyfarwydd, ar adegau o leiaf, yng nghyfnod bore'r iaith Gymraeg.

Mae'r eirfa enwau lleoedd "eosiaid" wedi eu gwasgaru ar hyd a lled y wlad, a theg yw gofyn beth yn union oedd eu hystyr.



Gwelwn yn Ffigur 1 mai "Llwyn Eos" a "Pant Eos" yw'r enwau mwyaf cyffredin yng Nghymru o blith yr enwau "cynefin", a gellir felly yn hawdd credu eu bod yn cyfeirio at yr aderyn go iawn yn ei gynefin. Ar y llaw arall "Llety'r Eos" yw'r ffurf fwyaf cyffredin ymhlith y rhai sydd yn fwy tebygol o gyfeirio at lysenw perchen a ganai'n dda, neu at gyrchfan Y Perganu.

Dengys Ffigur 2 fod y cofnodion yn ymrannu i ddau glwstwr, yn rhanbarthol ac o ran ystyr. Mae'r rhai "cynefin" yn lledaenu ar hyd y Deheubarth yn bennaf, a'r rhai "adeilad" ar hyd Gororau'r gogledd yn bennaf.




Dyma gofnododd Charles James Apperley am yr eos, yn ei hunangofiant, tua diwedd y ddeunawfed ganrif:

*'It is generally supposed that the nightingale is not found north of or far beyond the river Trent. It happened, however, in one year, that one was to be heard in Erthig wood for about six weeks. Half Wrexham would be in the wood until a late hour of the night, and some throughout the entire of it. Several unpropitious matches, as well as considerable augmentation of the population, to be provided for from the parish rates, were the result of "the amorous power of his soft lay".'*

## Mesur Dyfodiad y Gwanwyn (2007-8)

Un ffordd o fesur dyfodiad y gwanwyn yw cymryd uchafbwynt y tymheredd ar Ionawr 1<sup>af</sup> ac ychwanegu ato yr un mesuriad ar yr 2<sup>ed</sup>, ychwanegu eto uchafbwynt y 3<sup>ydd</sup> ac yn y blaen nes cyrraedd 30<sup>ed</sup> Ebrill. (Rhaid cyfri pob diwrnod gydag uchafbwynt o lai na 6°C gan nad oes unrhyw brifant llysieuol yn digwydd o dan 6°C). Gellir wedyn cymharu gwanwyn un flwyddyn gyda gwanwyn arall. Y llynedd cawsom wanwyn mwyn a chynnar (meddai pawb!) ac eleni un oer a hwyr a gawsom (meddai pawb eto!). Ond beth yn union oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau wanwyn yn ystadegol? Dyma'r graff...



### Gwanwyn 2007

- 1) 22 Ionawr 2007 Eira dros nos. Gwelfor ar y "llinell eira" ben bore 'ma...
- 2) 26 Ionawr 2007 Y tywydd oer yn dod i ben tan....
- 3) .....7 Chwefror 2007 pan gafwyd 12mm o rew yn yr ardd y bore yma.
- 4) 23 Mawrth 2007 Y gwanwyn yn dechrau o ddirfi

### Gwanwyn 2008

- 5) 9 Chwefror 2008 Y gwanwyn yn dechrau rasio ymlaen, a chrwbanod môr o'r trofannau yn ymddangos ar hyd glannau'r gorllewin. Ond trodd y tywydd yn ôl eto....
- 6) ....ar y 22 Mawrth 2008 a dechreuodd gwanwyn 2008 goll'i ras.
- 7) 6 Ebrill 2008 Eira tenau ymhobman i lawr i Sir Fon. Eira mawr yn Llundain
- 8) 27 Ebrill 2008 Gwennol gynta y Waunfawr...nyddwr bach (grasshopper warbler) yn canu am y tro cynta eleni yn y cae uwchben Rhwngyddwryd.


Cofnodion o ddyddiadur Duncan Brown, Waunfawr.

## Cerrig yr wyddor Ogham.



Pe bawn yn hysbysebu'r cylchgrawn hwn rhwng tua 300 - 600 OC yn yr Iwerddon neu o gwmpas arfordir gorllewinol Prydain, efallai mai dyma sut y buaswn wedi ysgrifennu "Llên Natur", yn y wyddor Ogham. Mae swydd Ciarraí (Kerry) yn yr Iwerddon yn le gwerth chweil i ymweld â hi, os ydych yn ymddiddori mewn hen gerrig ysgrifenedig. Mae'r ysgrifen wedi ei sellio ar linellau, gan mai llinellau ar ongl carreg neu ar garreg gron. Mae'r ysgrifau oedd ar bren wedi hen ddiplannu. Yr ysgrifen Ogham yw'r rhain (O'ham ar lafar) sydd yn mynd a ni yn ôl canrifoedd, ac i'r rhain hefyd mae yna wyddor debyg i beth sydd gan bob iaith heddiw, ond yn wahanol i'n llythrennau ni, mae pob llythyren yn gyfystyr hefyd i blanhigyn.

I = Ywen (*Iodha*)  
E = Aethnen (*Eadha*)  
U = Grug (*Ura*)  
O = Eithin (*Onn*)  
A = Pinwydden yr Alban (*Ailm*)  
R = Ysgawen (*Ruis*)  
Z = Draenen (*Strail*)  
Ng = Corsen (*Ngetal*)  
G = Eiddew (*Gort*)  
M = Llwyn Mwyar Duon (*Muin*)  
Q = Afal (*Quert*)  
C = Coll (*Coll*)  
T = Celyn (*Tinne*)  
D = Derw (*Dair*)  
H = Draenen Wen (*Huarth*)  
N = Onnen (*Nin*)  
S = Helyg (*Saille*)  
F = Gwern (*Fearn*)  
L = Criafolen (*Luis*)  
B = Bedwen (*Beith*)



Ffynhonnell y *Tree Council of Ireland*

Difyr yw gweld ambell i air yn y Wyddeleg yr un fath a'r Gymraeg! Mae *Gort* yn golygu cae hefyd. Roedd nifer o'r cerrig hyn yn nodi enw rhywun, enwau llefydd ac mae'n debyg yn nodi terfynau. Dim ond am tua 300 mlynedd, y parhaodd y dull yma.

Beth oedd y rheswm dros greu'r wyddor hon, a oedd yn syml iawn i'w ysgrifennu. Tybed ei bod hi'n haws cerfio ysgrifen fel hyn gyda chyn, neu rywbeth miniog arall. Carreg Ogham "Maqqi Callacias Maqqi Mucoi." oedd y gyntaf i'w darganfod yn yr Iwerddon gan Edward Llwyd. Y pryd hynny safai'r garreg mewn cae. Fe'i symudwyd gan gefndryd yr Arglwydd Ventry ger Trá Lí yng nghanol y 19<sup>eg</sup> ganrif. Dychwelwyd y garreg yn ddiweddar, oherwydd bygythiadau gan y cenedlaetholwyr, yn erbyn y landlord absennol. Mae'r garreg i'w gweld ar draeth An Trá Bheag, ger An Daingean (Dingle) cyfeirnod map S.O. Iwerddon O 486 000.

Mae'r wyddor hefyd yn cyfeirio at adar, anifeiliaid, lliwiau, ac adegau o'r flwyddyn, ond mwy am hyn eto.

Mae'r lythyren sy'n cyfeirio at goeden *ruis* (ysgawen) yn cyfeirio at liw gwaed. A oes yna gysylltiad yma rhwng y gair *ruz* am goch yn y Lydaweg tybed?

Ifor Williams, Llanfaglan

## Ymateb Huw Holland Jones, meteorolegydd, i erthygl am y cerdyn post o Abergwyngregyn yn Rhifyn 4.

*I was very interested to read your article about the visit of Jess and family to Aber Falls on 27 April 1912. I'm also very fond of the valley leading up to the falls, have walked it in all seasons and weathers.*

*I'm fairly certain that the "blossom trees" referred to by Jess were indeed, as you suspect, crab apples. I agree that blackthorn would be unclimable, and hawthorn would probably not be in blossom yet (and anyway, I would have thought the rather pungent heady smell of hawthorn blossom not as desirable as the sweet smelling apple blossom<sup>1</sup>). I agree that cherry blossom can be discounted.*

*You wonder if the season, on average, might have been more advanced a century ago. This is unlikely, as recent springs have, on average, been earlier than in the past owing to climate change (most likely attributed to global warming brought on by increases in greenhouse gas emissions into the atmosphere).*

*However, I'm fascinated by climate statistics, and collecting weather data, present day and historical, and looking through a variety of past records (ie, Central England Temperature, England & Wales Rainfall, Met Station records, Lamb's Records, and my own records) I think I can explain the early flowering of crab apple trees in 1912.*

*All the records show that April 1912 was warm, and exceptionally sunny and dry. The really warm spell began about 17 April, with daily maximum temperatures around 20C for the next ten days or so. The sun shone almost without a break from 12 April to month's end. This would have created ideal conditions for the early blossom (and note that Jess says "several blossom trees" so maybe they were just coming into flower, not all in blossom yet).*

*You note that last year after the incredibly warm April we'll never forget, that the crab apples were coming into flower 2 May, earlier than normal. But why not as early as 1912? Well, comparing the two months, the high temperatures came about a week earlier in 1912 than 2007, following a week of unbroken sunshine. And another important factor seems to be the need for a mild March (studying your flowering times for crab apples I noticed the later dates followed colder Marches and cloudier Aprils). And March 1912 was mild, thus preparing the way for advanced growth.*

*For the record, April 1912, on average, was not as warm as April 2007, but it was drier (and remember April 2007 was very dry!), and equally as sunny. And both Aprils were followed by wet cool summers. So the moral is, beware a sunny, dry and warm April.*



<sup>1</sup> Er cymaint fy hoffter o flodau gwyllt - pan yn blant gwrthodai fy mam i mi fynd â gwyddfid a blodau'r draenen wen i'r ty am eu bod yn dod ag anlwc. (Brenda Williams, Croesoswallt o golofn Bethan Wyn Jones yn yr Herald Gymraeg).

*L l ê n y L l e f y d d*